

Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynheliwyd ar nos Lun
3 Hydref 2022 yn Festri Capel Gwynfil, Llangeitho am 8.00 o'r gloch
Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,
3 October 2022 at Gwynfil Chapel Vestry, Llangeitho at 8.00pm

Presennol/Present

Cyng/Cllr Myrddin James (Gadair/Chair), Beryl Evans, Gwenfair Owen, Daniel Thomas, Emyr Jones, Sarah Evans, Rhian Turner, Gerwyn Ebenezer a Cyng/Cllr Rhodri Evans

Ymddiheuriadau/Apologies – PCSO John Evans, Cyng/Cllr Gwilym Evans, Dafydd Morse a Cyng/Cllr Paul Rooke

Datgan Diddordeb/Declaration of Interest – Neb / No one

Adroddiad yr Heddlu / Police Report

Ni dderbyniwyd adroddiad wrth yr heddlu. / No report was received from the Police.

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting

Cytunwyd fod cofnodion mis Medi yn gywir ar gynnig Cyng Sarah Evans ac eiliwyd gan Cyng Beryl Evans

The minutes for the September meeting were agreed as being correct by Cllr Sarah Evans and seconded by Cllr Beryl Evans.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes

- Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi llwyddiannus ar sut i ddefnyddio peiriant diffib yn Neuadd Jiwibili Llangeitho ar nos Fercher 7fed o Fedi lle mynychwyd 35 o bobl. Soniwyd bod yna bosibilrwydd o cynnal sesiwn arall ym Mhenuwch dechrau flwyddyn 2023 os byddai angen.
A successful training session on the use of the defibrillator attended by 35 people was held at the Jubilee Hall Llangeitho on Wednesday 7th of September. It was noted that a further session at Penuwch could be arranged for the beginning of next year if requested.
- Clerc wedi anfon y gohebiaeth i gyd ymlaen i'r Cyfreithiwr yn ADVE Llanbedr Pont Steffan ond heb glywed dim yn ôl o Crwbin Quarries na ADVE eto, Clerc i gysylltu a'r cyfreithiwr.
The Clerk had forwarded all correspondence regarding Crwbin Quarries to ADVE Lampeter. No response had been received from Crwbin Quarries or ADVE. The Clerk to contact the solicitors.
- Cwmni BARCUD wedi tynnu lluniau o'r safle sydd mewn trafodaeth ac maent yn mynd i drafod rhyngddynt yn gyntaf a dychwelyd i'r Cyngor Cymuned wedyn.
BARCUD had taken photos of the site under discussion and after internal discussions will contact Community Council with findings.
- Dim ond uchder y clawdd ar ben lon Tycroes/Ffoslas sydd wedi'u torri, Cyng Rhodri Evans i drafod ymhellach efo Cyngor Sir Ceredigion am yr angen i dorri'r ochrau.
Only the height of the hedge of Tycroes/Ffoslas lane had been cut. Cllr Rhodri Evans will contact Cyngor Sir Ceredigion for clarification if hedge sides need to be cut.
- Derbyniwyd e-bost oddi wrth 'Department for Levelling up, Housing & Communities' yn cadarnhau nad yw'r Cyngor Cymuned wedi bod yn llwyddiannus yn ymgeisio am grant Cronfa Perchnogaeth Gymunedol (Community Ownership Fund COF) gan nid yw'r ased mewn perygl ac nid yw'r ymgeisydd yn gymwys
An email had been received from the 'Department for Levelling up, Housing & Communities' confirming that the Community Council had not been successful in their grant application to the Community Ownership Fund COF as the asset is not in danger and the applicant is not eligible.
- Cytunwyd i ariannu prynu bocs peiriant diffib yn Stags Head am £495 & TAW, cyfrannwyd mwy na'r arfer gan fod y peiriant diffib er cof am y diweddar John Evans, gofynnwyd i'r clerch gysylltu a'r teulu am y posibilrwydd o rhoi plac uwchben y peiriant er cof am Mr Evans.
It was agreed to buy a box for the defibrillator at Stags Head at a cost of £495 & VAT. The sum contributed was more than usual as the defibrillator is in memory of the late John Evans. The clerk was asked to contact the family to discuss the possibility of placing a plaque stating this above the box.
- Cyngor Sir Ceredigion (Warden Gŵn) yn mynd i arddangos arwyddion dim baw cŵn
Cyngor Sir Ceredigion (Dog Warden) are going to place no fouling signs in the area.
- Cadeirydd wedi codi'r darn metel oedd wedi codi lan ar palmant ar y gylchfan.
Chair had removed the remaining old metal fence in the pavement by the roundabout.
- Soniwyd bod yna le addas ar bwys glwyd y parc i ddodi cysgodfan bws, ond bod angen caniatâd cynllunio.
It was noted that a suitable site by the park gate for the bus shelter had been identified, but planning consent would be needed.

- Cofnodion wedi'u llwytho ar gwefan y Cyngor Cymuned.
Minutes had been uploaded on to the Council's website.

Swydd y Clerc / Post of Clerk

Cadarnhad wedi'u dderbyn oddi wrth y Clerc fod hi'n fodlon sefyll ymlaen fel clerch gan fod yr amgylchiadau wedi newid. Cytunwyd i rhoi 5% o godiad cyflog i'r Clerc ac i'w ad-dalu nol i'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Mai 2022 ar gynnig Cyng Beryl Evans ac eiliwyd gan Cyng Sarah Evans. Diolchodd y Clerc i bawb am ei cefnogaeth.

The Clerk confirmed that she was willing to stay in post as her personal situation had changed. It was agreed to give the Clerk a 5% pay rise backdated the AGM in May 2022 – proposed by Cllr Beryl Evans and seconded by Cllr Sarah Evans. The Clerk thank everybody for their support.

Sedd Wag – Ward Llanbadarn Odwyn / Vacant Seat – Llanbadarn Odwyn Ward

Gan nad oedd yna enwau wedi dod ymlaen i'r sedd wag uchod, cytunwyd i cyfethol aelod i Ward Llanbadarn Odwyn, Cyng Rhodri Evans i gadarnhau lleoliadau'r personau a drafodwyd.

As no one had shown an interest in the vacant seat, it was agreed to co-opt a member for Llanbadarn Odwyn Ward. Cllr Rhodri Evans to confirm the location of the people discussed.

Llyn Fanod

Clerc i anfon llythyr i Mr Edward Harries yn gofyn am gadarnhad o'r perchnogaeth a dod a'r cyfan i ben.

The Clerk to send a letter to Mr Edward Harries requesting confirmation on ownership in order to bring this to a close.

Cyfrifon/Accounts

Trafodwyd y ffioedd a fu'n cael ei rhoi i'r Ffestri am logi lleoliad cynnal ein cyfarfodydd misol. Cytunwyd i'w drafod pan fu'r Neuadd yn Llangeitho yn asesu'r ffioedd ar ddiwedd y flwyddyn.

A discussion took place on the fees paid to the venues for our monthly meetings. It was agreed to discuss this further when Llangeitho Hall will review their fees later in the year.

Gohebiaeth/Correspondence

- Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth HAAVAV yn gofyn am gymorth ariannol tuag at brynu'r adeilad Plas Antaron – dim gweithrediad.

A letter had been received from HAAVAV requesting financial support to buy Plas Antaron – no action

- Llythyr wedi'u dderbyn oddi wrth Ben Lake AS Ceredigion, yn ein hysbysu am 'Gynllun Cymorth Biliau Ynni'; 'Ad-daliad Treth y Cyngor'; 'Cartrefi sydd dim ar y grid nwy'; 'Cynllun Cymorth Tanwydd Cymru'; a 'Cefnogaeth wedi'u dargeddi' – darllenwyd y cynnwys o'r llythyr i'r Cyngorwyr a fu'n medru hysbysu'r gymuned am y cynlluniau a rhestrowyd.

A letter was received from Ben Lake MP Ceredigion informing councillors of various schemes available to help families during the fuel and cost of living crisis, 'Energy Bills Support Scheme'; 'Council Tax Rebate'; 'Off-gas grid homes' & 'Wales Fuel Support Scheme'. The letter was read to that Councillors could inform residents of the schemes available.

Cyngor Sir Ceredigion County Council

Ymgeisydd: E Richards
Safle: Tyngwndwn House, Llwynygroes, Tregarn, SY25 6PY
Y Bwriad: Proposed annexe extension to dwelling

Ymgeisydd: A Livingstone
Safle: Tan yr Allt, Llangeitho, Tregaron, SY25 6FQH
Y Bwriad: Remove the corrugated tin roof, install sheep wool insulation, re-fix corrugated tin. Re-configure the 1st floor layout of the cottage. Retention of uPVC conservatory to an outbuilding.

Cytunwyd i gefnogi'r ddau gais uchod.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Dim i'w gofnodi / *Nothing to report.*

Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

- Twll yn y ffordd lawr y Rhiw o Gwynfil, Llangeitho.
Pot hole on the road by Gwynfil Uchaf, Llangeitho
- Angen glanhau'r draeanau o amgylch y gymuned cyn y Gaeaf.
Drains need to be cleaned before the winter.
- Angen tynnu'r arwydd Eisteddfod lawr gyferbyn a mynedfa Dolaeron.
Remove the Eisteddfod sign by Dolaeron
- Tyfiant dros bin grit lawr rhiw Sisyllt.
Overgrowth over the grit bin on Sisyllt hill.
- Tyfiant oddi amgylch arwydd 30mya lawr rhiw Llangeitho o Stags Head.
Overgrowth around the 30mph sign on the Llangeitho Hill, from Stags Head.
- Twll dwfn, yn y ffordd ar bwys glwyd fawr Pantddafad, Llwynpiod angen sylw brys.
Deep hole in the road by the gate to Pantddafad, Llwynpiod requires urgent action.
- Soniwyd bod yna ddiwrnod agored yn Cylch Meithrin Llangeitho ar ddydd Sadwrn 8fed Hydref, bod yna dim ond 3 plentyn wedi'u gofrestru ar hyn o bryd, cynhelir gweithgareddau i godi arian yn y gymuned yn fuan, angen cefnogi'r mudiad.
It was noted that Cylch Meithrin Llangeitho were holding an open day on Saturday 8th October. The Cylch only has 3 pupils registered at present. Fundraising events would be held soon and support was requested.

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting

Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Neuadd Llangeitho ar nos Lun 7fed o Dachwedd 2022 am 8 o'r gloch.
The next meeting will be held at Llangeitho Hall on Monday 7th November 2022 at 8pm.